

Mai 7fed 2020

Annwyl rieni / Gofalwyr,

Byddwn ni fel ysgol yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer 'Dysgu o Bell'. Rydym yn annog y disgyblion i fentro ar y tasgau fyddwn ni fel staff yn eu hawgrymu ac yn ei cynnig i'r plant, ac wrth gwrs, nid yn ei gorfodi i gwblhau rhestr o weithgareddau pob dydd. Mae'r nifer o dasgau sydd yn cael ei cwblhau yn ddewis i chi a'ch plentyn. Mae amrywiaeth o weithgareddau y gall y plant roi cynnig arnynt, felly rydym yn annog eich plant i wneud defnydd o Google Classrooms drwy eu cyfrifon Hwb personol. Cofiwch e.bostio athro/awes dosbarth eich plentyn os oes angen cymorth gyda defnyddio'r adnoddau. **Nid oes disgwyl i ddilyn unrhyw amserlen pendant ar gyfer y gweithgareddau gan ein bod yn dymuno rhoi hyblygrwydd i chi fel teuluoedd i gyflawni'r tasgau o fewn amserlen sy'n gweithio i chi.** Hoffwn eich atgoffa hefyd nad yw pob gweithgaredd yn ddibynnol ar y defnydd o gyfrifiadur. Mae'n bosib ac yn hollol dderbyniol i'r plant gwblhau gwaith ar bapur.

Yn ogystal a cheisio rhoi cynnig ar ychydig o'r gweithgareddau, rydym yn annog pob disgybl i fod mor actif â phosibl nid yn unig yn feddyliol ond hefyd yn gorfforol bob dydd, ond yn deall y gallai hyn fod weithiau yn anodd mewn realiti.

**Trefniant e.bostio a chasglu** – Rydym wedi cynnal trefniant **e.bostio a chasglu** dros y bythefnos olaf. **Ni fydd y trefniant yma yn rhedeg yr wythnos nesaf, sef yr wythnos sydd yn cychwyn Mai 11eg.** Fe fydd cyfle i chi gasglu unrhyw adnoddau syml yr hoffech i'ch helpu gyda trefniadau dysgu o bell yn ystod yr **wythnos sydd yn cychwyn 18.5.20**. Fel y drefn dros y bythefnos olaf, bydd angen i chi fod wedi cyfathrebu gyda'r athro/awes ddsbarth drwy e.bost os am unrhyw adnoddau, a bydd rhain yn cael ei gadael yn y bocs tu allan i ddrws y neuadd. Gofynnwn i chi ddychwelyd unrhyw lyfrau darllen mae eich plentyn wedi ei cwblhau, gan ei gadael yn y bocs 'drop off', gan nodi enw'r plentyn os gwelwch yn dda. Diolch

**Dyma fydd yr amseroedd y bydd rhaid cadw atynt.**

Dosbarth/Class	Dyddiad / Date	Amser / Time
Miss C. Darlington Bl.3&4 / Yr.3&4	<b>18.5.20</b>	<b>10.45 – 12.00</b>
Mrs M.Williams Bl.5&6 / Yr.5&6	<b>18.5.20</b>	<b>1.15 - 2.30</b>
Miss M.Davies Bl.1&2 / Yr.1&2	<b>19.5.20</b>	<b>10.30-11.15</b>
Miss E. Evans Bl.5&6 / Yr.5&6	<b>19.5.20</b>	<b>12.00-1.15</b>
Mrs S.Jones Bl.1&2 / Yr.1&2	<b>19.5.20</b>	<b>2.00-3.15</b>
Miss A.Morris Nursery / Reception	<b>20.5.20</b>	<b>10.45 – 12.00</b>
Miss Ch.Williams Bl.3&4 / Yr.3&4	<b>20.5.20</b>	<b>1.15-2.30</b>
Miss D.Dempsey Bl.1&2 / Yr.1&2	<b>21.5.20</b>	<b>10.45-12.00</b>
Mr S. Owen Bl.5&6 / Yr.5&6	<b>21.5.20</b>	<b>1.15-2.30</b>
Miss L.Lewis Reception/Derbyn	<b>22.5.20</b>	<b>10.45-12.00</b>
Mr D.Jones Bl.3&4 / Yr.3&4	<b>22.5.20</b>	<b>1.15-2.30</b>

Cofiwch nid yw dysgu o bell yn union fel dysgu yn yr ysgol/ystafell ddsbarth, felly peidiwch â rhoi unrhyw bwysau arnoch eich hunain!

Unwaith eto hoffwn eich hatgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddsbarth am unrhyw ymholiad ynglyn a'r gwaith, neu gyda'r swyddfa [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk) am unrhyw ymholiad cyffredinol. Diolch yn fawr, Cofion gorau atoch a daliwch ati i gadw eich hun a'ch teuluoedd yn ddiogel.

Rhodri Jones  
Pennaeth/Headteacher